

DATGANIAD NEWYDDION I YSGOLION A CHOLEGAU

Awst 2014


Cynnydd pellach yn y niferoedd sy'n sefyll lefel A Mathemateg Bellach yng Nghymru

Mae canlyniadau lefel A Mathemateg Bellach eleni unwaith eto'n achos dathlu yng Nghymru. Mae'r canlyniadau Mathemateg a Mathemateg Bellach wedi adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn y nifer oedd yn sefyll y pynciau hynny'r llynedd, gan godi ymhellach:

- Mae niferoedd lefel A Mathemateg Bellach wedi codi o 416 i 435, cynnydd o 4.6%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg Bellach wedi codi o 369 i 411, cynnydd o 11.4%.
- Mae niferoedd lefel A Mathemateg wedi codi o 3713 i 3727, cynnydd o 0.4%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg wedi codi o 4796 i 5087, cynnydd o 6.1%.

Cyrhaeddodd cyfran y myfyrwyr Mathemateg a safodd lefel A Mathemateg Bellach 11.7%, sef y canlyniad uchaf erioed mewn Mathemateg Bellach yng Nghymru. Ers i'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach gael ei lansio yng Nghymru yn 2010, mae'r ganran wedi codi'n gyson bob blwyddyn, fel y dengys y graff isod.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr lefel A Mathemateg sydd wedi sefyll lefel A Mathemateg Bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2003
(<http://www.icq.org.uk/examination-results/a-levels>)



Mae cymwysterau Mathemateg Bellach yn caniatáu i fyfyrwyr gyfoethogi eu profiad mathemateg a chreu sylfaen gadarnach ar gyfer datblygu gyrfa ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, economeg, gwyddoniaeth actwaraidd a chyllid. Mae Grŵp Prifysgolion Russell yn gosod gwerth mawr ar y cymhwyster, fel yr amlygwyd yn eu canllaw i ddewisiadau pwnc ôl-16 <http://russellgroup.org/InformedChoices-latest.pdf>

Mae myfyrwyr FMSP Cymru yn parhau i gyflawni canlyniadau ardderchog mewn arholiadau. O'r 3 myfyriwr o Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych a gafodd eu tiwtora, cafodd 2 A* ac 1 A. O'r 4 myfyriwr yn Ysgol David Hughes a gafodd eu tiwtora, cafodd 3 myfyriwr A* mewn

Mathemateg Bellach ac A* mewn Mathemateg. Cyflawnodd yr 1 myfyriwr o Fro Gwaun a gafodd ei diwtora gan FMSP Cymru A* mewn Mathemateg Bellach ac A* mewn Mathemateg.

Yn ôl Anna Clancey, a gafodd A* at ei gilydd mewn Mathemateg ac A mewn Mathemateg Bellach gydag FMSP Cymru yn 2013/14: *“Mae Mathemateg Bellach wedi gwneud i mi sylweddoli faint rwy’n mwynhau Mathemateg, a nawr rwy’n gwybod mai astudio ar gyfer gradd Fathemateg y flwyddyn nesaf oedd y dewis cywir. Heb Fathemateg Bellach mae’n annhebygol iawn y byddwn i wedi derbyn cynnig gan Brifysgol Caergrawnt.”*

Mae peilot Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach (FMSP) Cymru yn cefnogi ysgolion a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yn ardal y peilot trwy ddarparu tiwtora i fyfyrwyr a fyddai’n elwa o astudio lefel AS/A Mathemateg Bellach. Pan fo ysgolion/colegau yn wynebu anawsterau i staffio/amserlennu Mathemateg Bellach, gall FMSP Cymru ddarparu peth neu’r cyfan o’r tiwtora ar gyfer Mathemateg Bellach. Eifen arall allweddol y Rhaglen yw amrywiaeth o ddigwyddiadau adolygu ac astudio a gynhelir wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer myfyrwyr sy’n cael eu tiwtora gan FMSP Cymru a rhai sy’n astudio Mathemateg Bellach yn eu chweched dosbarth.

Yn y lle cyntaf, derbyniodd y Rhaglen gyllid gan Lywodraeth Cymru am 3 blynedd, o 2010-2013, i gwmpasu ardal beilot Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Darparwyd cyllid pellach yn 2013/14 i gynnwys Ynys Môn, Rhondda Cynon Taf, Conwy a Gwynedd. Yn dilyn yr adroddiad gwerthuso interim (<http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2013/8356143/?lang=en>) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, cadarnhawyd cyllid pellach am ddwy flynedd tan fis Mawrth 2016.

Yn ei ddatganiad cefnogol a gyflwynwyd ar gyfer cynhadledd i fyfyrwyr a gynhaliwyd gan FMSP Cymru ym mis Gorffennaf 2014, meddai Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru, Huw Lewis: *“Rwy’n cefnogi’r gwaith i barhau ac ehangu’r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, a reolir gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru, fel rhan o’r hymrwymiad lefel uchel i bynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM). Mae’r gwaith sy’n cael ei wneud i annog a galluogi dysgwyr i astudio ar gyfer cymwysterau Mathemateg Bellach i’w gymeradwyo, gan ei fod yn allwedd i bobl ifanc gael mynediad i Addysg Uwch a gyrfaoedd STEM.”*

O fis Medi 2014 bydd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cynnig Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) beilot mewn Mathemateg Bellach i athrawon o ysgolion a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yn Ne Cymru. Meddai Sofya Lyakhova, Cydlynnydd y Prosiect: *“Mae codi lefel sgiliau athrawon yn hanfodol i sicrhau bod y ddarpariaeth Mathemateg Bellach yn gynaliadwy yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gobeithio cynnig DPP yng Nghymru ers peth amser, ac rydym wrth ein bodd bod y cyllid estynedig yn rhoi cyfle i ni gynnig cwrs yn Ne Cymru.”* Fel mae canlyniadau’r arolwg DPP (<http://www.furthermaths.org.uk/docs/CPD%20Survey%20Report.2014.pdf>) yn awgrymu, mae diddordeb cryf mewn DPP Mathemateg Bellach yng Nghymru. Atebodd o leiaf 22% o’r canolfannau chweched dosbarth a ariannir gan y wladwriaeth, a byddai gan 84% o’r holl ymatebwyr ddiddordeb mewn derbyn DPP mewn Mathemateg Bellach, Bur, Mecaneg neu

Ystadegau yn ystod y 12 mis nesaf. Amlygwyd yr angen am raglen DPP hefyd yn yr adroddiad gwerthuso interim.

Gwahoddir yr holl ysgolion uwchradd a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru i gofrestru gyda'r Rhaglen <http://www.furthermaths.org.uk/Eregister.php> a mynegi eu diddordeb mewn cymorth tiwtora trwy gysylltu â Chydlynnydd y Rhaglen, Sofya Lyakhova, ar 01792 602793.

Nodiadau i Olygyddion

1. Rheolir FMSP Cymru gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS), mewn partneriaeth â Mathemateg mewn Addysg a Diwydiant (MEI, www.mei.org.uk). Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.
2. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch rhaglen gymorth Mathemateg Bellach Cymru ar gael yn: <http://www.furthermaths.org.uk/centre/?centre=wales>
3. Partneriaeth gydweithredol yw Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS) rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nod WIMCS yw gwella statws mathemateg a chyfrifiadura yng Nghymru, meithrin cysylltiadau â diwydiant, masnach a busnes, cynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol a darparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gwyddorau Mathemategol (www.wimcs.ac.uk).
4. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gweinyddydd FMSP Cymru drwy ffonio 01792 606609 neu e-bostio adminwales@furthermaths.org.uk